# Fforwm Enwogrwydd

Gwaith caled a *thalent* ddylai wneud pobl yn enwog ond mae edrych yn ddeniadol yn bwysicach na thalent y dyddiau hyn. Mae'n drueni. Mae llawer o bobl talentog allan yn fan'na sy'n cael dim sylw. Dyna'r broblem pan mae pobl sydd ddim yn ei haeddu yn cael gormod o sylw. Mae mwy a mwy o bobl sy'n ei haeddu yn cael eu sgubo dan y carped. Mae'r diwydiant cerddoriaeth yn enghraifft wych o hyn.

Kirsty Mehefin 27, 2011

Cytuno mai talent a gwaith caled ddylai arwain at enwogrwydd – ym myd chwaraeon, diwylliant, cerddoriaeth, arlunio ac ati ac ati. Erbyn hyn cyhoeddusrwydd ydy e, dim ots am beth – boed yn lladrata, llofruddio, anffyddlondeb, cam-drin, bod yn gyfoethog ...

Pssst Mehefin 2011

Wir? Dw i'n meddwl bod y we yn chwarae rhan bwysig ond dw i'n cyfaddef dydy pawb ddim yn mynd ar y we! Ac efallai mai enwogrwydd dros dro ydy e.

Susan Mehefin 2011

Ar gymdeithas mae'r bai. Mae fel 'supply and demand' – beth bynnag a phwy bynnag ydy'r 'flavour of the month'. Pe bai opera yn dod yn boblogaidd, er enghraifft, byddai'r cantorion opera yna sy'n eistedd yn y cysgodion y tu ôl i'r llenni yn dod yn enwog dros nos ac yn gwneud eu ffortiwn!
Mae gwahanol fathau o enwogrwydd yn dibynnu ar sut mae person yn ennill enwogrwydd. Mae gwaith caled a thalent yn gwneud y person enwog yn apelgar ac yn gwneud i chi fod eisiau bod yn debyg iddo. Mae dulliau hurt pobl eraill o ddod yn enwog yn gwneud i chi eu casáu.

Andy Mehefin 2011

Dw i'n meddwl bod Andy yn llygad ei le. Mae'r holl raglenni realaeth yn cael eu dangos am fod pobl yn eu hoffi. Dyna'r hyn sy'n ffasiynol ar y funud. Mae pobl yn eu gwylio'n ddibaid! Pob rhaglen dim ots pa mor crap ydyn nhw. Mae rhyw wacter ym mywydau pobl ac mae'n rhaid iddyn nhw ei lenwi gyda gwybodaeth ddi-fudd am 'enwogion' y rhaglenni hyn. Dyna ydy testun eu sgwrs.
Ydyn nhw wedi clywed am y rhai ddaeth yn enwog oherwydd eu gwaith diflino a'u dawn? Pobl fel Michaelangelo? Madam Curie? Nobel? Aneurin Bevan? Christopher Wren? Mozart? Ydyn nhw? Naddo? Ydych chi?

Dafydd Gorffennaf 2011